CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod:	**15.6.2021**
Teitl:	**Ceisiadau am arian o Gronfa Codi'r Gwastad a Chronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y Deyrnas Unedig**
Diben yr adroddiad:	**Gofyn am hawl i gyflwyno ceisiadau am arian i gefnogi twf economaidd a phrosiectau adfywio**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Economi ac Adfywio, y Cynghorydd Rhodri Evans**

1. Y CEFNDIR

1.1. **Cronfa Codi'r Gwastad y DU**
Bydd Cronfa Codi'r Gwastad y DU yn buddsoddi mewn seilwaith lleol sydd yn cael effaith weledol ar bobl a'u cymunedau a bydd yn cefnogi adferiad economaidd. Mae'r Gronfa yn cael ei rheoli ar y cyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Drafnidiaeth.

https://www.gov.uk/government/publications/cronfa-codir-gwastad-prosbectws

1.2. Mae'r gronfa ar agor i bob ardal yn y DU. Yn benodol, ym Mhrydain Fawr: awdurdodau unedol (gan gynnwys cynghorau bwrdeistrefi metropolitanaidd, cynghorau bwrdeistref Llundain a chynghorau dosbarth mewn ardaloedd dwy haen yn Lloegr; ac mae awdurdodau unedol yn yr Alban a Chymru yn gymwys i gyflwyno ceisiadau yn unol â pharagraff 1.4.

1.3. Mae cynghorau sir a chanddynt bwerau trafnidiaeth, awdurdodau ar y cyd, awdurdodau maerol ar y cyd ac Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA) yn gymwys i gyflwyno un cynnig trafnidiaeth; ac mae awdurdodau unedol yn yr Alban a Chymru ac awdurdodau unedol yn Lloegr sydd â phwerau trafnidiaeth yn gallu cyflwyno un cynnig ychwanegol. Rhaid i'r cynnig hwnnw fod ynghylch trafnidiaeth.

1.4. Disgwylir i Aelodau Seneddol, fel cynrychiolwyr wedi'u hethol yn ddemocrataidd yn eu hardaloedd, gefnogi un cynnig y maen nhw'n ei weld fel blaenoriaeth. Bydd nifer y cynigion y bydd awdurdodau lleol sydd yn y categori cyntaf yn gallu eu cyflwyno yn dibynnu ar faint o Aelodau Seneddol sydd yn eu hardal. Felly, bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno un cynnig am bob AS y mae ei etholaeth yn gyfan gwbl o fewn eu ffiniau. Bydd pob awdurdod lleol yn gallu cyflwyno o leiaf un cynnig.

1.5. Gellir cyflwyno cynigion am hyd at £20 miliwn i Gronfa Codi'r Gwastad a gellir gwneud cynnig pellach am hyd at £20 miliwn ar gyfer cynigion trafnidiaeth, er y gellir cyflwyno cynigion am hyd at £50 miliwn ar gyfer cynigion trafnidiaeth sydd ar raddfa fwy.

1.6. Mae Awdurdodau Lleol ledled Prydain Fawr wedi eu gosod mewn ardaloedd blaenoriaeth, sy'n seiliedig ar asesiad o anghenion economaidd. Mae Ceredigion, ynghyd â 15 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru wedi eu gosod yng nghategori 1. Golyga hyn y bydd blaenoriaeth uwch yn cael ei rhoi i brosiectau o'r ardaloedd hyn, a fydd yn diwallu'r meini prawf asesu.

1.7. Bydd hyd at £4.8 biliwn ar gael ledled y DU hyd at 2024-25, gydag o leiaf £800 miliwn i'w fuddsoddi mewn prosiectau yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Gwneir ymrwymiad y bydd 5% o ddyraniad y DU yn y flwyddyn gyntaf yn cael ei fuddsoddi yng Nghymru.

1.8. Gwahoddir rownd gyntaf o geisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu dangos bod elfennau o'u cynigion yn gallu cael eu cyflawni ym mlwyddyn 1 (y flwyddyn ariannol hon).

1.9. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 18 Mehefin 2021.

2. Cronfa Adfywio Cymunedol y DU

2.1. Bydd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn rhoi mynediad at £220 miliwn o arian ychwanegol i ardaloedd lleol ledled y DU, wrth iddynt baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU sydd i'w lansio yn 2022. Mae'r gronfa wedi ei thargedu i gynorthwyo yn y broses o godi'r gwastad a chreu cyfle yn y llefydd mwyaf anghenus ledled y DU, mewn modd sy'n wahanol i Gronfa Codi'r Gwastad ond sydd hefyd yn gweithredu fel cymar i'r gronfa honno, drwy fuddsoddi mewn medrau, menter a chyflogaeth.

Cronfa Adfywio Cymunedol y DU: prosbectws 2021-22 (publishing.service.gov.uk)

2.2. Ym Mhrydain Fawr, mae Llywodraeth y DU yn gwahodd awdurdodau arweiniol i wneud y canlynol:

- gwahodd cynigion gan ystod o ymgeiswyr prosiectau;
- gwerthuso a blaenoriaethu rhestr fer o brosiectau hyd at uchafswm o £3 miliwn fesul lle (fel y'i diffinir yn y rhestr termau ac fel yr amlinellir yn y rhestr o 100 lle â blaenoriaeth) (O ran Ceredigion, pennir Ceredigion fel y lle a phennir Cyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Arweiniol); a
- chyflwyno rhestr fer o'r prosiectau i lywodraeth y DU

2.3. Diben y gronfa yw 'meithrin ein meddyliau arloesol a chynnig hyblygrwydd, gall prosiectau lynu wrth naill ai un, neu sawl un, o'r blaenoriaethau buddsoddi canlynol:

- Buddsoddiad mewn sgiliau
- Buddsoddiad i fusnesau lleol
- Buddsoddiad mewn cymunedau a lleoedd
- Cefnogi pobl i gael cyflogaeth'

2.4. Yn ogystal â bodloni'r amcanion a amlinellir yn y prosbectws, rhaid i brosiectau hefyd ddangos eu bod yn cyfrannu at gyflawni strategaeth leol berthnasol – yn achos Ceredigion, yr hyn a nodir yn uchelgeisiau yn nogfen Strategaeth Economaidd 2020-35.

2.5. Mae'r arian refeniw i'w wario yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22

3. Cynigion arfaethedig Cyngor Sir Ceredigion

3.1. Mae'r dull arfaethedig o ddatblygu dau gais posibl gan Gyngor Sir Ceredigion i Gronfa Codi'r Gwastad a chais i Gronfa Adfywio Cymunedol wedi ei drafod yng nghyfarfodydd Grŵp Datblygu'r Cyngor ym mis Mawrth 2021, ac yna ar 24 Mai 2021.

3.2. Lansiodd Cyngor Sir Ceredigion alwad agored am brosiectau ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad a Chronfa Adfywio Cymunedol gan bartïon oedd â diddordeb ac a allai gyflwyno prosiectau cyfalaf neu refeniw y gellid eu cyflawni ac a oedd yn diwallu gofynion y cronfeydd. Sefydlwyd dau banel asesu i asesu'r ceisiadau ar gyfer y ddwy gronfa – Cronfa Codi'r Gwastad a Chronfa Adfywio Cymunedol – yn unol â'r meini prawf a nodwyd gan Lywodraeth y DU ac a esboniwyd yn y prosbectysau.

3.3. Derbyniwyd pum datganiad o ddiddordeb ar gyfer cronfa Codi'r Gwastad a chyflwynwyd 18 cais i'w hasesu ar gyfer y cynnig i'r Gronfa Adfywio Cymunedol.

Cronfa Codi'r Gwastad

3.4. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, mae cais i Gronfa Codi'r Gwastad yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, cais sy'n canolbwyntio ar fuddsoddiad i symud ymlaen ynghynt â'r weledigaeth o adfywio ymhellach yr ardal o'r Harbwr i'r Hen Goleg yn Aberystwyth, gan gynnwys gwelliannau i Brom y De.

3.5. Mae'r rhaglen a fydd yn ffurfio rhan o'r cais yn ymwneud â chyfres gydgysylltiedig o fuddsoddiadau a ddeuant at ei gilydd i helpu adfywio rhan o Aberystwyth sydd â'r potensial i ysgogi twf economaidd sylweddol i'r dref ac i Geredigion, gan gynnwys:

3.5.1 Parhau i ddatblygu'r buddsoddiad yn yr Hen Goleg, er mwyn cynnig cyfleoedd newydd a chyflwyno budd economaidd ychwanegol, gan weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth.

3.5.2 Buddsoddiadau strategol allweddol yn ardal yr harbwr, gan gynnwys pontynau newydd, gwelliannau i Dŷ'r Harbwr, codi pont i gysylltu dwy ochr yr harbwr a datblygu cyfleusterau manwerthu, hamdden a masnachol pellach ar ochr ogleddol yr harbwr. Drwy weithio gyda'r Grŵp Morol, bydd y buddsoddiad hwn yn rhyddhau arian o'r sector preifat, yn ogystal â buddsoddiadau eraill yn y sector cyhoeddus yn y dyfodol, er mwyn cefnogi'r cynlluniau tymor hir.

3.5.1. Gwelliannau i Dir y Cyhoedd ar hyd Promenâd Aberystwyth (Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol - Cyngor Sir Ceredigion). Y cynnig yw gwella tir y cyhoedd ac asedau cysylltiedig ar hyd y promenâd yn Aberystwyth, er mwyn cyfannu a chydgysylltu â chyfleoedd datblygu eraill sy'n cael eu dilyn drwy'r cyfle ariannu hwn. Bydd yn cynnwys uwchraddio/gwella'r goleuadau ar hyd y promenâd, gan osod llusernau LED addurniadol a thrwy wneud hynny yn lleihau costau ynni ac allyriadau carbon, ynghyd â bod yn gyfle i osod mannau gwefru mewn lleoliadau allweddol ar gyfer cerbydau trydan.

3.6. Mae'r buddsoddiad arfaethedig yn gam allweddol yn y broses o gyflawni gweledigaeth hirdymor ac uchelgeisiol i adfywio Aberystwyth. Bydd yn gwella darpariaeth hamdden a lletygarwch y dref a hefyd yn dathlu ac yn cyfoethogi ei hasedau diwylliannol a'i hetifeddiaeth forol. Bydd y buddsoddiad arfaethedig yn creu swyddi newydd mewn modd uniongyrchol a bydd yn denu mwy o ymwelwyr i Aberystwyth a thrwy wneud hynny yn sicrhau y bydd buddion anuniongyrchol hefyd i economi ehangach Aberystwyth a Cheredigion.

3.7. Mae ymgynghorwyr yn cyflawni gwaith asesu manwl, pellach ar bob agwedd o'r prosiect arfaethedig, er mwyn sicrhau bod y prosiectau yn diwallu anghenion y rhaglen ariannu i'r graddau gorau posibl. Fel rhan o'r broses hon, efallai y bydd rhai elfennau o'r prosiect yn cael eu tynnu allan o'r rhaglen bresennol, felly ar hyn o bryd ni wyddys beth fydd maint y cynnig llawn terfynol.

3.8. Mae ail gais i Gronfa Codi'r Gwastad yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Cais yn ymwneud â thrafnidiaeth yw'r cais hwnnw.

3.9. Nod y prosiect yw cefnogi twf economi Ceredigion (gan gynnwys twristiaeth) a dadgarboneiddio trafnidiaeth/teithio drwy brosiect i ddarparu trafnidiaeth a fydd yn cynnig gwell llwybrau Teithio Llesol er mwyn cysylltu a chlymu cymunedau ledled Ceredigion.

3.10. Mae'r prosiect arfaethedig yn ymdrechu i ddarparu gwelliannau o fewn a rhwng y tri lle sy'n ben y daith ar gyfer teithio llesol, sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Ar wahân i fod yn berchen ar gar preifat, ychydig yw'r dewisiadau teithio ymarferol i'r cymunedau a'r lleoliadau sy'n gweithredu fel canolfannau gwasanaethau lleol ar gyfer yr ardaloedd gwledig cyfagos sydd â phatrymau poblogaeth is a gwasgaredig. Y rheswm dros hyn yw'r ffaith mai anaml y ceir gwasanaethau trafnidiaeth i deithwyr a phrin iawn hefyd yw'r llwybrau cerdded a beicio diogel ar hyn o bryd.

3.11. Fel yn achos y cais cyntaf i Gronfa Codi'r Gwastad, mae gwaith asesu manwl yn cael ei gynnal ar bob agwedd o'r prosiect arfaethedig, er mwyn sicrhau'r cyfle gorau posibl o fodloni anghenion y rhaglen ariannu. Felly, ar hyn o bryd ni wyddys beth yw maint llawn, terfynol y cais terfynol.

Cronfa Adferiad Cymunedol

1.1. Yn dilyn yr alwad agored am brosiectau a allai gael eu cynnwys yn y rhestr fer o brosiectau i'w cyflwyno yn rhan o'r cais i'r Gronfa Adferiad Cymunedol, mae'r 18 prosiect a gyflwynwyd, a oedd yn cynnwys prosiectau o sefydliadau allanol yn ogystal ag o faes gwasanaeth Cyngor Sir Ceredigion, wedi'u hasesu a'u sgorio gan banel mewnol yn erbyn amcanion y prosbectws ac yn erbyn eu cyfraniad tuag at gyflawni Strategaeth Economaidd Cyngor Sir Ceredigion 2020-35.

1.2. Roedd y prosiectau yn y cynigion cychwynnol a dderbyniwyd yn werth cyfanswm o oddeutu £4.5 miliwn. Yn dilyn asesiad yn erbyn y meini prawf allweddol a gwaith pellach ar y prosiectau, bydd rhestr fer o brosiectau yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth y DU, gan gwmpasu ystod o gamau gweithredu a blaenoriaethau a chamau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Economaidd. Cyfanswm gwerth y prosiectau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ac sydd wedi eu cynnwys yn y cais fydd £3 miliwn.

1.3. Mae crynodeb o'r prosiectau sydd ar y rhestr fer ar hyn o bryd i'w gweld yn yr atodiad.

	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam:	Naddo. Llunnir Asesiad Effaith Integredig ar bob prosiect cyn i bob prosiect ddechrau, os bydd cefnogaeth i'r ceisiadau, ond mae crynodeb wedi'i gynnwys isod.
	Crynodeb:	
	Hirdymor:	Mae pob ymyrraeth a buddsoddiad arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn mynd i'r afael â gwendidau economaidd hirdymor a nodwyd yn y strategaeth economaidd ac yn cynnig o leiaf ran o'r atebion sydd eu hangen er mwyn lliniaru'r gwendidau hirdymor a nodwyd.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Integreiddio:**	Mae'r ceisiadau yn ymgorffori'n llawn yr amcanion a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Economaidd (Hybu Economi Ceredigion, Strategaeth i Weithredu 2020-35). Mae'r cynlluniau hefyd yn ymgorffori strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill o ran twf yr economi a thrafnidiaeth.
	Cydweithio:	Byddai'r buddsoddiadau yn golygu gwaith partneriaeth sylweddol gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus, addysg a'r sector preifat yng Ngheredigion.
	Cynnwys:	Mae'r cyfleoedd i fuddsoddi ac ymyrryd wedi deillio o ystod o weithredoedd ymgysylltu a gefnogai ddatblygiad

	strategaethau a chynlluniau gweithredu, gan gynnwys gwaith cynllunio lleoedd yn Aberystwyth a datblygu'r Strategaeth Economaidd. Mae'r syniadau penodol ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig arfaethedig wedi deillio o brosesau galw agored a alluogodd randdeiliaid allweddol i gyflwyno syniadau ar gyfer prosiectau.
Atal:	Mae llawer o'r syniadau ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fer arfaethedig o brosiectau ar gyfer y cais i Gronfa Adfywio Cymunedol yn cynnwys mesurau i rwystro caledi yn y dyfodol, caledi sy'n gysylltiedig â sgiliau gwael a phrinder cyfleoedd swyddi i bobl yng Ngheredigion.

Argymhelliad/Argymhellion:

Argymhellir bod Aelodau'n gwneud y canlynol:

1. Cytuno â'r egwyddor bod Cyngor Sir Ceredigion yn cyflwyno ceisiadau ar gyfer arian Cronfa Codi'r Gwastad a Chronfa Adfywio Cymunedol, fel y'u hamlinellir yn gryno yn y papur.
2. Cymeradwyo rôl Cyngor Sir Ceredigion fel awdurdod arweiniol ar gyfer y ceisiadau, ac yn dilyn hynny ei fod yn llunio cytundebau cyfreithiol gyda phartneriaid cyflenwi, pe bai'r ceisiadau am arian yn llwyddiannus.

Rhesymau dros y penderfyniadau:
Er mwyn ei gwneud yn bosibl ymgeisio am fuddsoddiadau strategol allweddol mewn twf economaidd.

Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol
Fframwaith Polisi:	
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Hybu'r Economi Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Byddai'r buddsoddiadau yn y ceisiadau hyn yn cael eu hariannu o ffynonellau Llywodraeth y DU ac arian cyfatebol yn cael ei gyfrannu gan ffynonellau ariannu cyhoeddus neu breifat eraill. Bydd angen gwneud peth gwaith pellach er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu eraill. Efallai y cyfyd rhai goblygiadau cost yn deillio o waith arfaethedig ar dir y mae Cyngor Sir Ceredigion yn berchen arno neu yn ei reoli. Ar hyn o bryd ni wyddys faint fydd y symiau sy'n gysylltiedig â hynny. Bydd lliniaru risgiau ariannol yn sgil swyddogaeth Cyngor Sir Ceredigion fel awdurdod arweiniol y cais yn cael ei

	gynnwys yn y cytundebau sydd i'w llunio rhwng Cyngor Sir Ceredigion a chynigwyr y prosiectau priodol.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Bydd angen cytundebau cyfreithiol rhwng Cyngor Sir Ceredigion a phob un o gynigwyr y prosiectau os bydd y ceisiadau'n llwyddiannus. Bydd y cytundebau cyfreithiol yn cwmpasu sut y bydd pob un o oblygiadau cyfreithiol perthnasol y Cyngor sydd yn gysylltiedig â'r cynnig i ariannu yn cael eu trosglwyddo i gynigwyr y prosiect priodol.
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo/asedau:	Mae'n debyg y bydd rhai o'r asedau y mae'r cyngor yn berchen arnynt yn cael eu cynnwys yn y cais, ac o'r herwydd, efallai y bydd goblygiadau i brydlesoedd sy'n bodoli eisoes.
Risg(iau):	Y brif risg sy'n gysylltiedig â'r papur hwn yw'r risg y gallai'r cais fethu. Ni ellir dileu'r risg hon ond mae'n cael ei lliniaru gan y gwaith manwl sy'n dal i gael ei wneud ar y cais, er mwyn sicrhau bod y cais cryfaf posibl yn cael ei gyflwyno. Mae pob prosiect yn y cais yn cynnwys asesiad o risg y prosiect hwnnw a sut mae lliniaru'r risg honno.
Pwerau Statudol:	
Papurau Cefndir:	
Atodiadau:	Rhestr o'r prosiectau arfaethedig sydd wedi'u rhoi ar y rhestr fer ar gyfer y Gronfa Adfywio Cymunedol.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Russell Hughes Pickering
Swyddog Adrodd:	Arwyn Davies
Dyddiad:	24.3.21

Cyngor Sir Ceredigion – Cabinet – 15/06/21

ATODIAD 1

Datganiadau o Ddiddordeb a Gafwyd – Cronfa Adnewyddu Cymunedol

Isod mae rhestr o'r holl Ddatganiadau o Ddiddordeb a gafwyd yn dilyn yr alwad agored am ddatganiadau o ddiddordeb ar gyfer Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU yng Ngheredigion.

Ar hyn o bryd mae'r ceisiadau'n cael eu hasesu a'u rhoi ar y rhestr fer cyn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU cyn y dyddiad cau.

NODER: Ni fydd pob prosiect ar y rhestr hon yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU i'w ystyried – gan y bydd y broses asesu yn gwirio cymhwystra, cyflawnadwyedd, diwydrwydd dyladwy – ac yn blaenoriaethu yn ôl angen lleol.

Darperir yr atodiad hwn er gwybodaeth – i ddangos cyfanswm y Datganiadau o Ddiddordeb a gafwyd yng Ngheredigion.

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol	4CG	Mae'r cais hwn yn cynnig dull gweithredu a arweinir gan y trydydd sector tuag at dai a arweinir gan gymunedau yng Ngheredigion. Dysgu o'r model a ddefnyddir gan Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Wessex ac ymgorffori'r dysgu mewn cymunedau yng Ngheredigion Creu rhwydwaith o gwmnïau cydweithredol tai a arweinir gan gymunedau yng Ngheredigion a fydd yn darparu tai fforddiadwy i bobl leol ac yn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol i ddatblygu tai fel pwerdai bach. Mae cynnig y prosiect yn beilot 6 mis gyda'r nod o ddatblygu Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol ar gyfer y sir.	287,435
BioAccelerate	AberInnovation	Rhaglen parodrwydd buddsoddwyr yw BioAccelerate a gynlluniwyd i helpu cwmnïau cyfnod cynnar a busnesau newydd i ddatblygu eu cynllun busnes a'u strategaethau datblygu technegol i bwynt lle gellir buddsoddi er mwyn cyflwyno'n llwyddiannus i fuddsoddwyr ecwiti ac angylion buddsoddi.	214,050

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Mid Wales Challenge Led Launch Pad Series	AberInnovation	Mae'r *Challenge Led Launch Pad Series* yn rhaglen newydd gyda'r nod o ddatblygu atebion newydd i broblemau yn y sector cyhoeddus a phroblemau cymdeithasol trwy ymchwil ac arloesi wrth gynnig cyfleoedd marchnadol newydd i fusnesau a phobl â sgiliau isel yng Nghanolbarth Cymru. Bydd y rhaglen yn galluogi busnesau i ddadansoddi a gwerthuso potensial cysyniadau a syniadau ar gyfer eu defnyddio yn y sector cyhoeddus yn y pen draw trwy gydweithredu â'r byd academaidd ac arweinyddiaeth ranbarthol i annog llwyddiant a thwf. Trwy fodel gweithio cydweithredol, bydd yn darparu arbenigedd ac adnoddau i gyflymu datblygiad busnesau arloesol yng Nghyngor Sir Ceredigion a Powys a chyflymu twf trwy arloesi sy'n cael effaith sylweddol. Bydd *Challenge Led Launch Pads* yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf brys sy'n cyd-fynd â pholisi yng Nghanolbarth Cymru ac yn genedlaethol i helpu i gefnogi'r adferiad economaidd yn y rhanbarth. Bydd y rhaglen newydd hon yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd yn nodi ac yn dewis y materion cymdeithasol rhanbarthol mwyaf dybryd sy'n gofyn am atebion a chydweithio i gefnogi busnesau i ddatblygu atebion i'r broblem a nodwyd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth wedi'i theilwra a'r potensial i ddefnyddio asedau cyfalaf rhanbarthol unigryw a thechnoleg i gynorthwyo busnesau i ddatblygu atebion newydd sy'n annog busnesau i gynhyrchu twf economaidd. Bydd y rhaglen hon yn rhoi cyfleoedd rhagorol i fusnesau ddatblygu a dangos technoleg i ystod o randdeiliaid yn y bartneriaeth sy'n gweithredu fel darpar gwsmeriaid.	560,187
Sbardunwr Cynhyrchiant AberInnovation	AberInnovation	Bydd y prosiect hwn yn darparu cefnogaeth i fentrau, yn benodol canllawiau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu a chynhyrchiant, i fentrau o bob maint o fewn Ceredigion yn y sectorau Biotechnoleg, Agritech, a Bwyd a Diod a'r economi gylchol (y cyfeirir atynt fel y 'Sectorau Targed' er mwyn y cais hwn). Bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi dros gyfnod chwe mis, gydag entrepreneuriaid/busnesau yn cael eu cynefino dros y ddau fis cyntaf, gyda'r buddiolwyr felly'n cael o leiaf bedwar mis o gefnogaeth trwy Reolwyr Cymorth Sbarduno penodedig (x2, dau ddiwrnod y mis), consortiwm y prosiect, Cyrff Hyfforddi Cofrestredig/Canolfannau Rhagoriaeth, fel y Catapwlt Gweithgynhyrchu Uwch, a thrwy sesiynau arbenigol a ddarperir trwy ystod o Becynnau Gwaith cymorth.	441,500

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Sgiliau Newydd Dechrau Newydd	Antur Cymru	Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â niferoedd cynyddol o bobl sy'n ystyried entrepreneuriaeth yn seiliedig ar reidrwydd sy'n wynebu rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau sefydledig sy'n rhoi cymorth i fusnesau, fel Busnes Cymru. Gyda ffyrlo'n gorffen bydd y garfan hon yn tyfu'n sylweddol. Bydd y prosiect yn grymuso unigolion i gaffael sgiliau trosglwyddadwy trwy gymryd rhan mewn prosiect sy'n rhoi sgiliau busnes sylfaenol. Mae'r prosiect yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd trwy fodel llwyddiannus blaenorol a gyflwynwyd yng Ngheredigion a alluogodd fusnesau i gychwyn a chefnogi cleientiaid i mewn i gyflogaeth a hyfforddiant. Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog gan ddefnyddio dull gweithredu'n seiliedig ar hyfforddi a bydd yn cynnwys recriwtio hyrwyddwyr cymunedol gwirfoddol i alluogi gwaddol gan y prosiect. Wedi'u cynnwys yn y prosiect mae dau ganolbwynt cychwyn lle gall entrepreneuriaid sy'n dod i'r amlwg brofi masnach a sefydlu safleoedd ar gyfer eu nwyddau a'u gwasanaethau. Bydd y rhain wedi'u lleoli yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan.	226,500.00
ReVerb	Area 43	Mae Area 43 wedi dod o hyd i gyllid i brynu adeilad i gartrefu caffi ieuenctid, gan roi man cyfarfod diogel, penodol o safon i bobl ifanc sy'n amrywio rhwng 14 a 25 oed. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei phennu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc, mewn partneriaeth ag oedolion, gweithwyr proffesiynol dibynadwy a phartneriaid cymunedol. Y Caffi Ieuenctid: • man cyfarfod hamddenol, sy'n ddiogel, yn gyfeillgar, yn gynhwysol ac yn oddefgar; • lle i bob person ifanc o bob cefndir cymdeithasol a diwylliannol gymryd rhan mewn rhyngweithio cymdeithasol â'u cyfoedion mewn amgylchedd diogel a chefnogol heb gyffuriau ac alcohol; • lleoliad ar gyfer ymlacio, hamdden ac adloniant, a, lle bo hynny'n briodol, fel safle ar gyfer gwybodaeth, cyfeirio at wasanaethau neu hyd yn oed ddarpariaeth uniongyrchol o ran gofal/gwasanaethau; • man lle gall pobl ifanc ddatblygu perthnasoedd o ansawdd da â'u cyfoedion ac oedolion. • Man anffurfiol, addysgiadol i bobl ifanc ddysgu sgiliau bywyd a gwella eu cyfleoedd cyflogaeth.	73,737

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Menter Ceredigion	Business In Focus	Cynllun peilot Menter Ceredigion: Mae'n cynnig cefnogaeth i bobl i fod yn hunangyflogedig, i adeiladu medrau/hyder. Bydd yn buddsoddi mewn medrau digidol, cyflogadwyedd a medrau entrepreneuraidd, yn ogystal â chefnogi meicrofusnesau sydd newydd eu sefydlu. Mae wedi ei deilwra'n benodol ar gyfer unigolion sy'n anweithredol yn economaidd/sydd yn ddi-waith neu ar ffyrlo ac mae'n ategu darpariaeth prif ffrwd, gan weithio'n agos gyda phartneriaid cymunedol. Rydym wedi datblygu, profi a mireinio elfennau ategol o fewn y gwasanaethau sydd gennym ar hyn o bryd, yn barod i'w cyflwyno mewn lleoliadau daearyddol newydd. Mae'r cynnig hwn ar gyfer Ceredigion; rydym yn anelu at ei atgynhyrchu ym Mhowys ac ar draws holl ranbarth canolbarth Cymru.	213,126
Caru Aber	Caru Aber	Ar gais pobl ifanc yn y gymuned leol, bydd cysgodfan yn cael ei adeiladu yn y parc sglefrio yn Aberystwyth, gan ei gwneud yn bosibl defnyddio'r cyfleusterau drwy gydol y flwyddyn a chan gynnig dewis arall yn hytrach na chysgodi mewn arhosfan fysiau gyfagos pan fo hi'n bwrw glaw. Bydd ffynnon ddŵr hefyd yn cael ei gosod yno gyda chyfleuster i ail-lenwi poteli dŵr a lle penodol i gŵn yfed.	15,000
Llwyddo Gyda'n Gilydd	Cered	Prosiect yw hwn i ddatblygu gwytnwch atyniadau ymwelwyr hanesyddol Ceredigion, gan gryfhau eu gallu i ddenu ymwelwyr a chefnogi twf yr economi leol sydd yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth. Nid yw llawer o'r atyniadau yma yn derbyn arian cyhoeddus i'w cynnal ac o'r herwydd nid yw'n bosibl recriwtio staff cyflogedig ar gyfer pob rôl. Mae gwirfoddolwyr, felly, yn gwbl hanfodol i sicrhau bod drysau yr atyniadau yma ar agor. Serch hyn, mae'r atyniadau yn wynebu heriau sylweddol sy'n ymwneud â gwirfoddoli sef recriwtio nifer digonol o wirfoddolwyr, sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir a sicrhau olyniaeth ar gyfer gwirfoddolwyr sydd yn heneiddio.	7,050

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Cefnogi adferiad cymunedau a llefydd yng Nghymru a buddsoddi yn eu hadferiad	CAVO – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion	Trafodaeth drwyadl gyda chymunedau a lleoedd mewn 9 ardal awdurdod lleol ynglŷn â'r ffordd orau i gynnwys pobl a darparu cefnogaeth gynaliadwy o ran dysgu a datblygu, ariannu a mesur effaith gwaith cymunedol sy'n seiliedig mewn lle. Peilota a chydgynhyrchu rhaglen hyfforddi beilot rithiol ar-lein, gan gynnwys hyfforddiant dan arweiniad cyfoedion ynghylch cynaliadwyedd ariannol, mesur effaith, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol a newid hinsawdd. Sicrhau ymrwymiad cymunedau lleoedd mewn 9 awdurdod lleol drwy arolygon ar-lein, cyfarfodydd rhithiol, galwadau ffôn a rhwydweithiau. Sicrhau ymrwymiad Cynghorau Gwirfoddol Sirol mewn 9 awdurdod lleol drwy drafodaethau un i un a rhwydweithiau. Sicrhau ymrwymiad o leiaf 10 darparwr cymorth nad ydynt yn gweithredu dan Gynghorau Gwirfoddol Sirol na'r Awdurdod Lleol. Sicrhau ymrwymiad 9 awdurdod lleol mewn trafodaethau. Rhannu gwersi a ddysgwyd yn sgil COVID-19 o adroddiadau ymchwil gweithredol yng Nghymru ac adrodd arnynt, er mwyn cyfrannu at adferiad a chydnerthedd cymunedol. Ystyried sut i gefnogi cymunedau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn gwaith sydd yn seiliedig ar le, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Ystyried y gefnogaeth sydd ei hangen ar gymunedau a lleoedd i wella cynaliadwyedd amgylcheddol ac addasu i newid hinsawdd er mwyn cefnogi adferiad a chydnerthedd cymunedol.	7,000
Galluogi Adferiad Trefi Ceredigion	Cyngor Sir Ceredigion	Drwy gyfrwng ei brosiect 'Galluogi Adferiad Trefi Ceredigion', mae Cyngor Sir Ceredigion yn anelu at alluogi chwech o brif drefi Ceredigion i ddatblygu mannau deniadol lle gall unigolion, cymunedau a busnesau ffynnu. Mae ymgysylltu sylweddol wedi arwain at nodi'r angen am gapasiti tymor byr i gyflawni cynlluniau lleol a chlustnodi gweithgareddau ymarferol ar gyfer y dyfodol. Bydd y prosiect hwn yn gweithredu fel catalydd i dreialu dulliau newydd o'r fath er mwyn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ein trefi wrth iddynt ddod allan o gyfnod lle bu'n rhaid iddynt wynebu heriau pandemig COVID-19.	239,905

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Prosiect Ymgysylltu ac Estyn Allan i Gymunedau Gwledig	Cyngor Sir Ceredigion	Rydym yn gwneud cais am arian refeniw i'n cefnogi i atgyfnerthu ein cefnogaeth gyffredinol a phenodol i gymunedau gwledig, i alluogi unigolion i fyw mor iach â phosibl, o ran eu hiechyd meddyliol a chorfforol, a gwella eu hannibyniaeth, eu cydnerthedd a'u gallu i fod yn hunanddibynnol. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddarn o waith newydd ac arloesol a fydd yn cynnig darpariaeth symudol, neilltuol a thros dro i gymunedau sydd â rhwystrau o ran cefnogaeth neu gyfleoedd i gyfranogi. Ym mis Awst 2021, bydd ein grant cyfalaf o'r loteri yn dechrau gydag uned symudol yn cyrraedd y sir. Yna, bydd yr uned hon yn cael ei defnyddio ar y cyd er mwyn ymgysylltu gyda'r rhai hynny y mae'n fwyaf anodd eu cyrraedd ledled Ceredigion.	50,000
Dysgu trwy Weithgaredd – yr Urdd	YR URDD	Y prif weithgareddau a fydd yn digwydd rhwng mis Awst 2021 a mis Mawrth 2022 fydd: - Recriwtio 20 swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE) sy'n amrywio rhwng £18,000 y flwyddyn a £45,000 y flwyddyn. -Uwchsgilio 5 swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE) presennol drwy gyfleodd hyfforddi. - 280 awr o Wirfoddoli/Profiad Gwaith dan arweiniad i 30 o bobl ifanc. - Datblygu Gweithgareddau Dŵr ar ffurf llyn ac offer. Bydd y prosiect yn edrych ar gymorth wedi'i dargedu mewn busnes lleol drwy fuddsoddi yn y gweithlu dwyieithog yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, canolfan breswyl yng Ngheredigion, gorllewin Cymru.	471,600
Cyngor Sir Ceredigion: Trawsnewid Sgiliau Digidol ar gyfer y Stryd Fawr	Maybe Solutions Ltd	Bydd y prosiect hwn yn darparu dysgu digidol carlam i fusnesau'r Stryd Fawr a'u staff drwy raglen o hyfforddiant sgiliau digidol, grantiau cyfryngau cymdeithasol a llwyfan digidol cynhwysfawr. Bydd y rhaglen yn uwchsgilio 500 o fusnesau a 1,500 o weithwyr y Stryd Fawr. Bydd busnesau'n derbyn grantiau ar gyfer marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol am gymryd rhan yng nghamau'r rhaglen a'u cwblhau. Bydd y prosiect yn datblygu sgiliau unigol, yn gwella proffidioldeb a gwydnwch busnesau, ac mae'n broses y gellir ei hefelychu a'i graddio a fydd yn sicrhau canlyniadau mesuradwy.	741,725

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Lle i Weithio	Menter a Busnes	Barn Menter a Busnes yw y dylid mynd i'r afael â rhan o'r ateb i'r broblem hon drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng cyflogwyr allweddol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn archwilio a datblygu atebion cyfannol a arweinir gan fusnesau i'r heriau a wynebir sydd hefyd yn ceisio mynd i'r afael â gofynion sefydliadol. Yn benodol, credwn nad yw potensial busnesau bach a chanolig yn cael ei ddefnyddio ddigon ar hyn o bryd, yn yr ystyr bod cyfle i wella potensial busnesau bach a chanolig i dyfu a chreu swyddi drwy weithredu gyda gwell ymwybyddiaeth o'u hanghenion parhaus o ran sgiliau a chapasiti. Dros gyfnod y cynllun peilot hwn, rydym yn cynnig ffurfio grŵp o gyflogwyr o'r un anian i archwilio a threialu mentrau ar y cyd i greu mwy o swyddi a chadw cenedlaethau iau yng Ngheredigion. Er mwyn annog y gweithgaredd hwn, bydd Menter a Busnes yn cydlynu prosiect trosglwyddo gwybodaeth peilot 8 mis o hyd a fydd yn cynnwys gweithdai, siaradwyr arbenigol ac ymgyrchoedd craidd i gyflwyno damcaniaethau blaenllaw ac arferion gorau i'w hystyried gan y grŵp.	99,559
'THE LIFE YOU WANT'	Threshold DAS ltd	Porth dysgu ar-lein newydd ar gyfer pobl sy'n awyddus i uwchsgilio neu ail-hyfforddi ac a gynigir fel 'siop un stop' i'r rheini sy'n ddi-waith, yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, a'r rheini sydd ag anabledd ond sydd am wella eu dewisiadau bywyd. Mae ystod o gymorth ar gael, gyda phwyslais ar 'nid yw byth yn rhy hwyr i ddysgu rhywbeth newydd'. Bydd 'THE LIFE YOU WANT' yn cael ei ddarparu drwy ddwy elfen wedi'u strwythuro'n unigol sy'n cynnig cymorth unigol wedi'i deilwra i unigolion, p'un a ydynt yn profi neu wedi profi cam-drin domestig. Y tair elfen yw: 1. Porth dysgu ar-lein ar MOODLE, 'THE LIFE YOU WANT', a fydd yn cynnig hyfforddiant yn ogystal â dysgu a chymwysterau achrededig. 2. Darpariaeth mewn ystafell ddosbarth, gan gynnig hyfforddiant, chwilio am swyddi a chymwysterau Agored Cymru, ond hefyd cymorth cyflogadwyedd (bydd y ddarpariaeth yng Ngheredigion) 3. Dysgu Cyfunol.	200,294

Enw'r Prosiect	Noddwr y Prosiect	Disgrifiad Byr	Gwerth
Prosiect Dichonoldeb AnTir	Tir Coed	Mae'r prosiect yn brosiect peilot a dichonoldeb sy'n seiliedig ar weithredu ar gyfer AnTir, ein rhaglen hyfforddi 6 blynedd o hyd arfaethedig yng nghefn gwlad canolbarth a gorllewin Cymru. Bydd AnTir yn cefnogi, yn cymell ac yn galluogi pobl ddi-waith neu ddifreintiedig i feithrin sgiliau ymarferol i wella eu cyflogadwyedd ar gyfer swyddi gwyrdd ym maes tyfu/rheoli tir. Mae'n darparu'r capasiti i wneud y canlynol: • Profi methodoleg, unedau dysgu a chanlyniadau'r agwedd newydd hon ar waith TirCoed drwy ddatblygu a darparu hyfforddiant ymarferol yn yr awyr agored, gan gynnwys cynlluniau mentora a chynlluniau gweithredu unigol • Ymchwilio ac ymgynghori â darpar gyflogwyr – ffermwyr, tyfwyr, safleoedd treftadaeth – i bennu'r sgiliau sydd eu hangen • Dylunio 'banc llafur tir' i baru darpar weithwyr â chyflogwyr • Hyfforddi staff darparu • Dylunio/datblygu fframwaith monitro a gwerthuso • Dylunio fframwaith achredu Agored Cymru newydd ar gyfer cymhwyster galwedigaethol	166,923
Canolfan Tir Glas	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Bydd Canolfan Tir Glas yn sefydlu rhwydwaith o unedau cyd-ddibynnol yn Llanbedr Pont Steffan, a fydd yn helpu i fynd i'r afael â Strategaeth Economaidd Ceredigion "Hybu Economi Ceredigion - Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35" ac anghenion gorllewin Cymru wledig. Bydd hyn yn cynnwys Canolfan Busnes a Menter Wledig sydd wedi'i galluogi'n ddigidol, Canolfan Cymru Gydnerth (mewn partneriaeth â Hwb Cydnerthedd Llanbedr Pont Steffan), Canolfan Ymchwil Coed Cymru a'r Ganolfan Gastronomeg Genedlaethol (yn seiliedig ar Brifysgol y Gwyddorau Gastronomig yn Pollenzo, yr Eidal a'r Ysgol Bwyd Artisan). Bydd y weledigaeth bellgyrhaeddol hon yn galluogi'r Brifysgol i weithredu fel canolbwynt trawsnewidiol ar gyfer economi, seilwaith cymdeithasol, diwylliant ac amgylchedd yr ardal.	488,000